

COLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU

Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg

**Yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ar gyfer y cyfnod
1 Awst 2024 i 31 Gorffennaf 2025**

1. CYFLWYNIAD

Sefydlood Mesur y Gymraeg (Cymru) fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau (Rheoliad y Gymraeg (Rhif 6)). Nod y Safonau yw:

- rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau o ran y Gymraeg;
- rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg;
- sicrhau mwy o gysondeb mewn gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau yng Nghymru drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

O 1 Ebrill 2018 mae gan Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ddyletswydd statudol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y nodir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd ar 29 Medi 2017.

Yn unol â gofynion y Safonau, rhaid i'r Coleg gynhyrchu adroddiad blynyddol mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â'r ffordd y mae'r Coleg wedi cydymffurfio â'r safonau. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad ddim hwyrach na 6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Awst 2024 a 31 Gorffennaf 2025.

Mae'r materion y mae'n rhaid adrodd arnynt yn cynnwys:

- Sut mae'r Coleg wedi cydymffurfio â'r safonau yr oeddem o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno (fesul dosbarth o safonau – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu);
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd (fesul dosbarth o safonau – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu);
- Sgiliau iaith Gymraeg y cyflogeion;
- Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigir yn y Gymraeg;
- Nifer y staff sy'n gwisgo bathodyn 'laith Gwaith' ar ddiwedd y flwyddyn ariannol;
- Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd a gafodd eu categoreiddio yn unol â gofynion amrywiol o ran sgiliau Cymraeg.

Bydd yr adroddiad ar gael ar wefan Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru o 31 Ionawr 2026.

2. CYFLAWNIADAU AC ADRODDIADAU NODEDIG

Eisteddfod Genedlaethol 2024	Roedd CBCDC yn breswilydd ar Lwyfan Encore yn perfformio cerddoriaeth Gymreig mewn cydweithrediad â Tŷ Cerdd, yn ogystal â dathlu 75 mlynedd ers sefydlu'r Coleg gyda myfyrwyr cerddoriaeth a drama ynghyd.
Pan Ddaw'r Nos (Tachwedd 2024 a Gorffennaf 2025)	Perfformiadau yn dathlu caneuon Meirion Williams mewn partneriaeth ag adran leisiol Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Syr Bryn Terfel a Mererid Hopwood. Roedd y perfformiad ym mis Gorffennaf yn ddathliad penblwydd yn 150 oed Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtiaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth.
Dydd Gŵyl Dewi	Dathlodd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Ddydd Gŵyl Dewi gyda'i Fand Pres yn dathlu bywyd a diwylliant Cymru i gynulleidfa lawn. Cynhaliodd Cymdeithas Cymraeg y Coleg berfformiad yn y cyntedd hefyd, yn cynnwys cerddoriaeth gorawl, leisiol a thraddodiadol Gymreig.
Blwyddyn Cymru-Japan (Chwefror ac Ebrill 2025)	Mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru aethoma â cherddoriaeth Gymreig i Japan (myfyrwyr a staff), gan gynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig ag Expo Osaka a Chymdeithasau Dydd Gŵyl Dewi yn Tokyo a Kansai. https://www.rwcmd.ac.uk/cy/our-stories/representing-wales-in-japan-students-visit-to-celebrate-welsh-culture
Use of Welsh sur-titles	Perfformiwyd Opera <i>Don Giovanni</i> gan Mozart yn Theatr y Sherman ym mis Mawrth 2025. Canwyd yr opera yn Eidaleg, ond trwy ddefnyddio uwchdeitlau hygrychedd a chynhwysiant, cadarnhaodd CBCDC ei hymrwymiad i iaith wrth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.
Graddio 2025	Mae Seremonïau Graddio Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi esblygu i fod yn ddigwyddiadau cwbl ddwyieithog. Yn ogystal â chyflwyno tri Chymrawd yn y Gymraeg, cyflwynwyd Ymateb y Cymrodyr yn ddwyieithog ac mae myfyrwyr bellach yn cael eu cyflwyno ar gyfer eu gwobrau yn y Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.
Young Cultural International Ambassadors	Dyfarnwyd y gwobrau Llysgenhadon Rhyngwladol Diwylliannol Ifanc cyntaf yn Eisteddfod yr Urdd Margam ym mis Mai 2025

	Gweler: https://www.facebook.com/watch/?v=1606521813348216 https://www.rwcmd.ac.uk/cy/news/awards-of-a-lifetime-eisteddfod-yr-urdd-and-rwcmd-2025
Partnership with Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Mewn cydweithrediad ag Adran Cerdd Prifysgol Caerdydd, mae CBCDC wedi bod yn llwyddiannus mewn cais am gyllid i gynnal diwrnod Gweithgareddau Cerddoriaeth ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Ngwanwyn 2026

3. LLYWODRAETHU, STRATEGAETH A MONITRO

3.1 Rheoli Polisi Iaith Gymraeg a Chydymffurfiaeth

Grŵp Llywio Iaith Gymraeg y Coleg, sydd bellach yn cael ei arwain gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau, sydd â chyfrifoldeb rheoli dros bolisi iaith Gymraeg y Coleg. Gan adrodd yn uniongyrchol i'r Uwch Dîm Arweiniaeth, mae'r Grŵp Llywio yn cyfarfod bob tymor. Mae'r Grŵp Llywio yn cynnwys aelodau wedi'u henwebu gan Undeb Myfyrwyr CBCDC.

3.2 Strategaeth y Gymraeg a Diwylliant Cymru CBCDC

Trwy ei Strategaeth Iaith a Diwylliant Cymraeg a phwyntiau cysylltiedig ar gyfer gweithredu yn y dyfodol, mae CBCDC yn mynegi ei agwedd at iaith a diwylliant, yn y Coleg ac mewn partneriaeth â'r gymuned. Dyma'r nodau strategol cyffredinol diwygiedig:

- Ymgymryd yn llawn â'r rôl fel Conservatoire Cenedlaethol Cymru drwy gydnabod natur hanfodol y Gymraeg yn hunaniaeth ddiwylliannol y genedl; a
- Defnyddio, cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ym mywyd a gwaith y Coleg.

Mae'r strategaeth lawn ar gael fan yma: <https://www.rwcmd.ac.uk/cy/pwy-ydym-ni/gwybodaeth-corrforaethol/safonaur-iaith-gymraeg>

3.3 Monitro

Mae'r Grŵp Llywio yn cyfarfod bob tymor i adolygu cydymffurfiaid parhaus â'r Safonau. Mae gweithgarwch monitro arall yn cynnwys archwiliadau rheolaidd o Ystadau ac arwyddion, gwasanaethau ymwelwyr a chyfathrebiadau.

4. CYDYMFFURFIO

Sut mae'r Coleg wedi cydymffurfio â'r safonau

Mae nifer o adnoddau a chanllawiau wedi'u darparu i staff CBCDC ar ei fewnwyd *Hyb CBCDC*.

Trwy ei Galendr Pwyllgorau rheolaidd, cyfarfodydd staff a thrafodaethau un i un, caiff y staff eu hatgoffa'n barhaus o ofynion cydymffurfio â'r Safonau mewn perthynas â'u gweithgareddau. Mae ymatebion i gwestiynau neu bryderon yn cael eu hystyried yn unigol, i ategu'r adnoddau sydd ar gael i'r cyhoedd.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cydymffurfiodd y Coleg â dosbarthiad dynodedig y safonau yn y ffyrdd canlynol:

4.1 Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

4.1.1 Mae'r holl gyfathrebu â'r holl staff a/neu'r holl fyfyrwyr yn cael ei wneud yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys y bwletin gwybodaeth *Sgwrs* a gyhoeddir pob mis.

4.1.2 Ni chynhaliwyd cyfarfodydd mewnol yn Gymraeg yn bennaf yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod adrodd, mae CBCDC wedi datblygu perthynas fwy cyson â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Yn ogystal â staff y Coleg yn mynychu cyfarfodydd Panel y Diwylliannau Creadigol, cynhaliwyd cyfarfodydd ychwanegol rhwng y colegau i hwyluso partneriaeth a chynhelir y cyfarfodydd hyn yn y Gymraeg. Gweler hefyd 'adroddiadau nodedig' uchod.

4.1.3 Rydym yn parhau i gefnogi trefniadau Diwrnodau Agored yn ddwyieithog. Gofynnwyd i gyfranogwyr a wahoddwyd i bob Diwrnod Agored yn ystod y cyfnod adrodd hwn nodi dewis iaith ac roedd staff a myfyrwyr ar gael i sgwrsio ac ateb cwestiynau yn y Gymraeg yn ôl y galw. Cefnogwyd teithiau o amgylch y campws a'r neuaddau preswyl dan arweiniad myfyrwyr yn y Gymraeg eto.

4.1.4 Mae CBCDC wedi comisiynu Lfb Cymru Cyf i gyflawni gwasanaethau cyfieithu Cymraeg ac mae'n cynnal pwynt cyswllt canolog ar gyfer cydgrynhoi deunyddiau i'w cyfieithu'n broffesiynol. Comisiynwyd Testun, Cymen a nifer cyfyngedig o wasanaethau cyfieithu eraill o safon i ddarparu gwasanaethau cyfieithu yn ystod y cyfnod hwn.

4.1.5 Mae gwefan CBCDC yn ddwyieithog. Fel rhan o ail-ddylunio'r wefan yn y cyfnod adrodd, mae cyfieithu i'r Gymraeg wedi'i ymgorffori yn y system rheoli cynnwys. Nid yw tudalennau'n cael eu gwneud yn fyw oni bai bod y Gymraeg cyfatebol ar gael. Yn ogystal, mae argaeledd capsiynnau Cymraeg wedi'i ychwanegu at gynnwys fideo ar draws y wefan er mai yna enghreifftiau o lwyddiant rhannol yn hyn o beth; felly sefydlwyd protocolau pellach i sicrhau bod yr holl gynnwys yn cael ei gyflwyno'n ddwyieithog.

4.1.6 Ers 2020, mae Datganiadau Ariannol (Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon) CBCDC wedi eu cyhoeddi hefyd yn y Gymraeg.

4.2 Safonau Llunio Polisi

4.2.1 Mae Strategaeth y Gymraeg a Diwylliant Cymru (gweler 3.2 uchod) yn darparu'r fframwaith ar gyfer cefnogi safonau llunio polisi. Mae hyn yn ei dro hefyd yn cyfeirio at ddogfennau gweithdrefnol eraill sy'n parhau i gael eu hadolygu'n gyson, yn ogystal â manteisio ar y berthynas â Phrifysgol De Cymru, rhiant-gorff CBCDC. Gellir nodi mewn perthynas â rhai polisiâu, Rheoli Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch yn fwyaf nodedig, bod CBCDC yn parhau i fod yn ymrwymedig i wasanaethau Prifysgol De Cymru.

4.2.2 Yn ystod y cyfnod adrodd, mae CBCDC wedi cadarnhau ei ddefnydd o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) fel y modd y caiff effaith llunio polisi ei mesur. Yn ogystal â nifer o ffactorau eraill, mae'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gofyn cwestiynau clir am effaith llunio polisi ar y defnydd o'r Gymraeg. Gall effaith gael ei mynegi fel rhywbeth cadarnhaol ac fel mater o bryder, fel y bo'n briodol.

4.2.3 Yn hyn o beth, gwerth nodi datblygiad dull CBCDC o ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial ('AI'), gan roi sylw penodol i'r persbectif Cymreig a defnyddio egwyddorion a ddatblygwyd gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru. Nodweddion allweddol y Cod Ymddygiad a ddatblygwyd yw ymrwymadau i dryloywder a chyfraniad dynol. Mae hyn yn cynnwys arwydd clir pan ddefnyddir meddalwedd cyfieithu i gynorthwyo cynhyrchu testun dwyieithog ond na chaniateir defnyddio unrhyw gyfieithiad o'r fath heb wirio gywirdeb.

4.3 Safonau Gweithredu

4.3.1 Mae'r holl adnoddau a gwybodaeth ar gael i staff a myfyrwyr drwy fewnwyd CBCDC 'Yr Hyb'

4.3.2 Nifer y staff sy'n gwisgo bathodyn 'laith Gwaith' ar ddiwedd y flwyddyn ariannol

Caiff bathodynau laith Gwaith eu dosbarthu i'r holl staff sydd wedi nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl a gellir gwneud cais amdanynt drwy'r cydlynwyr neu drwy gysylltu â'r Adran Materion Allanol.

Mae nifer o staff yn gallu cynnig gwasanaethau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog o ganlyniad i fagu hyder a datblygu eu sgiliau.

4.4 Safonau Cadw Cofnodion

4.4.1 Cofnodion o gymwyseddau iaith staff

Mae'r cyfleuster i osod cymwyseddau iaith ar gofnod cyflogaeth aelod o staff wedi'i ddatblygu a gwahoddwyd yr holl staff i gadarnhau a diweddarau eu lefel sgiliau Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

Ar hyn o bryd, mae cyfanswm o 20 aelod o staff craidd yn rhugl yn y Gymraeg gyda 14 aelod arall o staff yn nodi rhuglder rhannol.

4.4.2 Nifer y cwynion a dderbyniwyd (fesul dosbarth o safonau – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu)

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion, yn ffurfiol nac yn anffurfiol, yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r Weithdrefn Gwyno ar gael ar wefan CBCDC.

4.4.3 Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigir yn y Gymraeg

Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2024/5, ymgwymerodd 20 aelod o staff â dosbarthiadau Cymraeg, 10 ar Lefel Mynediad, 7 ar Lefel Sylfaen a 3 ar Lefel Uwch.

4.4.4 Swyddi newydd a gwag

Mae CBCDC yn cynnwys y datganiad canlynol ym mhob hysbyseb:

“Rydym wedi ymrwymo i greu gweithlu sy'n cynrychioli cymdeithas. Ar hyn o bryd mae pobl o gymunedau ethnig amrywiol, y rheini sy'n hunan-nodi fel anabl, niwroamrywiol a thrawsryweddol, ac unigolion sy'n siarad Cymraeg, wedi'u tangynrychioli, felly rydym yn awyddus i glywed gan ymgeiswyr o'r grwpiau hyn sydd wedi'u tangynrychioli.”

Mae CBCDC hefyd yn nodi ym mhob manyleb person:

“Yn ddelfrydol y gallu i gyfathrebu (ar lafar ac yn ysgrifenedig) yn y Gymraeg. Bydd y Coleg yn cynorthwyo gydag unrhyw anghenion hyfforddi neu ddatblygu yn hyn o beth.”

Yn ychwanegol i hyn, yn ystod y cyfnod adrodd:

- Cynhaliodd CBCDC 23 o ymgyrchoedd recriwtio, yn fewnol ac yn allanol i'r sefydliad. Ni ystyriwyd bod y Gymraeg yn hanfodol i unrhyw un o'r swyddi hyn, er y datganiad uchod.
- Mae data dewis iaith ymgeiswyr bellach wedi'i guddio rhag aelodau'r panel dethol ar y cam llunio rhestr fer i gefnogi recriwtio heb unrhyw ragfarn anymwybodol;
- Nododd pum ymgeisydd ar draws yr holl ymgyrchoedd y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg ac o'r rhain, cafodd un ei gyfweld am ddwy swydd a'i benodi i un ohonynt;

- Mae'r Llawlyfr Sefydlu ar gyfer staff newydd (pob categori) a rheolwyr llinell yn cynnwys cyfeiriad penodol at ddarpariaeth hyfforddiant Iaith Gymraeg.

5 GWYBODAETH BELLACH

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr adroddiad blynyddol neu unrhyw agwedd ar gydymffurfiaeth Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru â Safonau'r Gymraeg, cysylltwch ag:

Adran Marchnata a Chyfathrebiad
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
Maes y Castell
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3ER
cymraeg@cbcdc.ac.uk